

## Y Stori

Ar 28 Ebrill 1902 marchogodd Cynol Thomas Hungerford Holdich, swyddog a thirfesurydd a chyn-aelod o'r fyddin Brydeinig, i lawr o'r Gogledd tuag at Gwm Hyfryd, y wladfa fach Gymreig wrth odre'r Andes. Fel dyfarnwr teg a phennaeth Comisiwn y Ffin, ei dasg oedd penderfynu lleoliad y ffin rhwng Chile a'r Ariannin, a oedd wedi bod yn destun ffrae rhwng y ddwy wlad ers blynnyddoedd. Arhosodd Holdich a'i dim yng Nghwm Hyfryd tan yr ail o Fai 1902, ac yn sgil ei benderfyniad erys Colonia 16 de Octubre (h.y. yr enw swyddogol am Gwm Hyfryd) yn rhan annatod o'r Ariannin am byth.

Erbyn heddiw, y stori yn y Wladfa, ac yn yr Ariannin yn gyffredinol, yw bod trigolion Cwm Hyfryd wedi ymgasglu ger yr ysgol leol i gwrdd â Chyrnol Holdich ac aelodau eraill y Comisiwn, ac yno wedi pleidleisio'n unfrydol i ochri gyda'r Ariannin, nid Chile. Pleidlais lafar nid pleidlais ar bapur oedd hon, a'r gred gyffredin yw bod y bleidlais wedi dylanwadu ar y Cynol i roi y tir dadleuol i'r Ariannin.

Mae'r stori hon wedi gwreiddio'n ddwfn yn llên gwerin y Wladfa, ac yn cael ei derbyn fel hanes swyddogol y wlad. Ailadroddir yr hanes hwn ym mhob llyfr ar y pwnc yn yr Ariannin.

Er enghraifft, mewn llyfr yn Sbaeneg a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn Nhrefelin, atgynhyrchir llun o'r ysgol ar y clawr (gw. Llun 1) a thu fewn y llun adnabyddus sy'n dangos oddeutu cant o Gymry Cwm Hyfryd ger yr ysgol ar y diwrnod hwnnw, sef 30 Ebrill

1902 (gw. Llun 2), a rhestrir enwau'r rhan fwyaf ohonynt. Ailadroddir hefyd stori'r bleidlais fel a ganlyn (fy nghyfieithiad):

'Gyda balchder mawr, derbyniodd yr Ysgol aelodau'r Comisiwn, yn eu gwisg filwrol ac ar gefn ceffyllau, ar gyfer yr achlysur o bwys mawr.

I'r cwestiwn gan Gynol Holdich "A ydych chiwi yn dymuno dilyn dan nawdd y faner las-golau a gwyn?" atebodd pawb yn unfrydol a chyda phendantwydd: "Trigolion yr Ariannin ydym ni".

Wedyn, gyda llawenydd, canodd y corau emynau yn mynegi gobaith, diolchgarwch a heddwch, a darllenodd yr Ysgolfeistr, Owen Williams, gerdd Gymraeg, a gyfansoddwyd ganddo.'

Ceir fersiwn arall o'r hen stori - y cyfarfod cyhoeddus, y trafodaethau yno, a'r bleidlais derfynol - gan Richard Llewelyn ym Mhennod 14 o'i nofel *Down Where the Moon Is Small* (1966), h.y. yr ail ran yn ei drioleg anorffenedig ar hanes y Wladfa. Aeth Richard Llewelyn i'r Wladfa a byw yno am gyfnod, er mwyn ymchwilio'r cefndir ar gyfer ei nofelau arfaethedig. Yn ôl nofel Llewelyn, cynhaliwyd y cyfarfod gyda Chomisiwn y Ffin a'r Cymry lleol mewn cae rhwng Afon Cyrants (Rio Corintos heddiw) a chors, gyda'r baneri yn chwifio ar fryncyn isel gerllaw - dim sôn yma am yr ysgol, noder.

Ond, faint o wir sydd yn yr hen stori hon, tybed?

## Tystiolaeth

Heblaw'r traddodiad llafar, ychydig iawn o dystiolaeth sydd ar gael mewn gwirionedd.

Dywedodd R. Bryn Williams, prif hanesydd y Wladfa: '*Daeth Holdich i Gwm Hyfryd, a chyfarfod y Cymry yn yr ysgol yno... pan ofynnodd Holdich i bwy y dymument berthyn, atebwyd gyda bonllef mai i Ariannin*' (R. Bryn Williams, *Y Wladfa*, Gwasg Prifysgol Cymru 1962, t.242).

Ymhelaethwyd ar yr hanes rywfaint, a chyda geiriau mwy gofalus, gan Glyn Williams: '*It is difficult to extract the role played by the Welsh settlers in the arbitration decision*'; hefyd '*They, and presumably the other settlers residing in Cwm Hyfryd... stated a preference that favoured the Argentine government*', ond ymddengys 'It was far from being a unanimous decision'. (Glyn Williams, *The Desert and the Dream*, 1975, tt. 141-2).

Er diddordeb, felly, fe es yn ôl i lygad y ffynnon, sef Cynol Holdich ei hun, a'i fersiwn swyddogol, h.y. (ei lyfr hir a manwl *The Countries of the King's Award* (1904). Er mai disgrifiad cymharol fyr sydd gan Holdich o'i ymweliad â Chwm Hyfryd, mae'n werth ei ddarllen: pensaernïaeth y tai; dulliau ffermio yn yr ardal; ei groeso brwdfrydig gan y Cymry '*triumphal arches and decorations and the gathering of the whole Welsh clan*'; a'i lety cyfforddus ar fferm y teulu Underwood. Fe ymwelodd Holdich â'r ysgol a dyma'i ddisgrifiad: '*I visited the school-house where I saw the cheeriest and cleanest crowd of children that I had seen for a long time. After a good old Welsh custom I was welcomed by the local bard, but I regret that his inspirations were as much lost on me as an Afghan ode...*' (Sir T.H. Holdich, *The Countries of the King's Award*, 1904, tt. 343-4, a llun t. 347).

A dyna'r cwbl! Dim gair gan Holdich am gyfarfod cyhoeddus, trafodaethau na phleidlais. A chyda llaw, gresyn iddo fethu deall y gerdd o groeso gan Owen Williams yr ysgolfeistr. Byddai'n ddiddorol clywed y gerdd honno - efallai

ei bod hi'n cynnwys tystiolaeth gyfoes ar deimladau'r gwladfawyr ynglŷn â'r ffin.

Dengys y llyfr bod Holdich yn ysgrifennwr huawdl ac amleiriog, sy'n disgrifio'n fanwl nid yn unig y tywydd, tirlun, daeareg a llysieueg, ond hefyd y bobl y cwrddodd â hwy yn ystod ei deithiau. Rhyfedd braidd, felly, iddo fethu cynnwys gair yn ei lyfr hir am y 'bleidlais' yng Nghwm Hyfryd, neu a oedd ei esgeulustra yn fwriadol, tybed?

Yn nes ymlaen, dywedodd Holdich: '*The great majority of the Chubut colonists would welcome a return to the British flag*.' a hefyd: '*As regards nationality, information is too vague to admit of making any definite statement.*' (Holdich, t. 354).

Am ragor o wybodaeth ar Holdich, a fu farw yn 1929, gweler *DNB* (1922-1930) lle sonnir am ei waith ym Mhatagonia fel hyn:

diolch am ei brofiad technolegol, ei allu cymodi, a'i archwiliad trylwyr o'r tir, roedd y tribiwnlys yn gallu rhoi dyfarniad a oedd yn gwbl dderbyniol i'r ddwy ochr.

## Gwaith maes

Yn ystod fy ail ymweliad â'r Wladfa, ym mis Tachwedd 1997, fe es i'r hen ysgol (*Escuela No. 18*, sydd nawr yn amgueddfa), a hefyd i fynwent Trefelin. Yn y fynwent siaradais â merch leol, Sbaeneg ei hiaith, a oedd yn addurno bedd gyda chennin Pedr. (Tachwedd yw gwanwyn yno, cofier. Soniais wrthi am Holdich ac, er syndod mawr imi, cefais wybod ganddi hi am hen gofgolofn i goffâu'r bleidlais a chyfeiriadau manwl sut i gael hyd i'r fan.

Saif y gofgolofn hon yn unig yng nghanol y caeau, rhwng y fynwent a'r ysgol. Nid oes unrhyw arwyddbost i'r gofgolofn, nac unrhyw lwybr yn arwain tuag ati, ac mae'r gofgolofn yn hollol anweledig o'r lôn wledig sy'n rhedeg yr



## "Balle Hermoso"

Lugar que dio origen a la  
"Colonia 16 de Octubre"  
"Trevelin"

Clawr llyfr gan Enriqueta Florencia Davies de Johnson (dim dyddiad, ond 1992?). Cyfieithiad y teitl:

Cwm Hyfryd

Lle a roddodd darddiad i'r

Wladfa 16fed o Hydref

Trefelin

(Llun 1) Llyfr yn hanesion a lluniau, 1865-1920



(Llun 2) Plant Cymreig Cwm Hyfryd, ar 30 Ebrill 1902 (Sir T.H. Holdich, *The Countries of the King's Award*, 1904, t. 347).